



# Educational Resources in International Languages

## System Respiradol



*Translated from English to Welsh by:*

**Miss Megan Evans**  
MA (Translation Studies)  
Cardiff University

## Pennod 13

### System Resbiradol

#### Esiampau o Gyfarwyddiadau i'r Ymgeisydd:

- Mae'r dyn/menyw 73 mlwydd oed hwn/hon, sydd wedi derbyn hemicolectomi/hemiarthroplasti/llawdriniaeth ddargyfeiriol ffemoro-gameddol chwe diwrnod yn ôl yn achwyn o ddiffyg anadl a phoen yn y frest. Archwiliwch ei system resbiradol.
- Mae'r dyn/menyw 69 mlwydd oed hwn/hon yn derbyn asesiad cyn llawdriniaeth ar gyfer atgyweiriad hernia ddwyochrog/amnewidiad pen-glin/clirio nod ategol. Mae ef hi yn ysmyg wr ac mae ganddynt hanes o Glefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint. Archwiliwch ei system resbiradol os gwelwch yn dda.
- Archwiliwch system resbiradol y claf hwn.
- Archwiliwch y claf hwn ar gyfer asesiad cyn llawdriniaeth resbiradol.
- Archwiliwch y claf hwn am unrhyw arwydd o glefyd resbiradol.

#### Archwiliad y System Resbiradol

##### 1. Cyflwyniad a Chaniatâd

- Golchwch eich dwylo neu defnyddiwch gel alcohol
- Cyflwynwch eich hun i'r claf
- Gwiriwch adnabyddiaeth y claf (enw a dyddiad geni)
- Derbyniwch ganiatâd i archwilio
- Ystyriwch warchodwr, os yw'n addas

##### 2. Lleoli a Dinoethiad (gyda'r claf yn gorwedd ar soffa)

Lleolwch y claf ar ongl tua 45 gradd ar y soffa a dinoethwch y frest. Os yw'r claf yn fenyw, diogelwch ei hurddas wrth gadw'i bronnau wedi'u gorchuddio tan fod dinoethiad yn angenrheidiol.

##### 3. Arolygiad Cyffredinol o Ddiwedd y Gwely

- Ydy'r claf yn edrych yn gyfforddus wrth orffwys?
- Sut mae ymddangosiad cyffredinol y claf?
- Oes anffurfiad pectws (brest casgen)?
- Oes unrhyw ddyspnoea amlwg?
- Ydy'r claf yn defnyddio ei gyhyrau/chyhyrau atodol?
- Oes unrhyw greithiau (thoracotomy, thoracoscopy neu ddraeniau)?
- Oes unrhyw gyfarpar (e.e. mewnanadlydd, pot poer, ocsigen neu nebiwlyddion) sy'n awgrymu clefyd resbiradol?

##### 4. Gwnewch Archwiliad Cyffredinol y Claf

Gall yr arholwr ddweud wrthoch chi am sgipio'r cam hwn, neu nodi y dylech archwilio'r frest yn unig.

#### Dwylo

##### Ewinedd:

- Staenio tar (ysmygu).
- Adlenwad capilariaidd (dylai fod <2 eiliad).
- Clybiad (o ganlyniad i afiechydon ysgyfant megis carcinoma bronciol, mesothelioma, afiechyd ysgyfant interstitiaidd, ffibrosis cystig, bronchiectasis, crawniant ysgyfant, empyema a sarcoidosis).
- Gwiriwch y pwls rheiddiol. A yw'n gryf a phwerus (arwydd o ddargadwad CO<sub>2</sub>)?
- Gwiriwch am astericsis (fflap dargadwad CO<sub>2</sub>).

**Gwynedd****Llygaid**

- Anaemia (cyfbilen welw)
- Syndrom Horner (Tiwmor Pancoast)

**Ceg**

- Llawr y geg (dulasedd canolog)

**Gwddf**

- Aseswch bwysedd gwythiennog y gwddf (JVP) am gor pulmonale (methiant y galon ochr-dde) (wedi'i godi, yn pylsadu).
- Aseswch am lymffadenopathi (cerfigol a supraclavicular). Os wedi helaethu, gall fod yn arwydd o tiwberciwllosis neu falaen.
- Aseswch y lleoliad traceol. A yw'n ganolog? (Ystyriwch y gall hyn fod yn anghyfforddus i'r claf, felly rhybuddiwrch ef/hi cyn yr asesiad).
  - Gall gwyriad fod i ffwrdd o allrediad enfawr neu tuag at yr ochr sydd â chyfaint gostyngol o ganlyniad i echdoriad neu ymgwymiad.

**5. Archwiliad y Frest Flaenorol****a) Arolygiad**

- Creithiau. Gofynnwch i'r claf osod ei ddwylo/dwylo ar ei gluniau/chluniau er mwyn edrych oddi tan y breichiau am greithiau a gafwyd o ddraeniau neu driniaeth thoracs mynediad minimal.
- Aseswch am ehangiad cyfartal yn ddwyochrog. Gofynnwch i'r claf i gymryd anadl ddofn i mewn ac allan.

**b) Teimlo â Llaw**

- Aseswch ehangiad eto gan ddefnyddio dwy law.
- (opsiynol) Aseswch am ffremitws cyffyrddol lleisiol.

**c) Trawiad**

- Tapiwch tair ardal o leiaf yn ofalus: o'r ardal is-glafiwclar i wal ochrog y frest.
- Cysain: normal
- Tra-gysain: pneumothoracs neu emffysema difrifol
- Mud: allrediad, calediad neu fàs gwaelodol

**ch) Gwrando ar sain**

- Gofynnwch i'r claf i anadlu'n ddwfn i mewn ac allan trwy ei geg/cheg.
- Gan ddefnyddio diaffram y stethoskop, gwrandwch ar sain mewn tair ardal o leiaf: o'r ardal is-glaficwlar i wal ochrog y frest. Ystyriwch anatomi'r glusten er mwyn sicrhau eich bod yn gwrando ar bob llabed yn ystod yr archwiliad. Mae'r llabed dde-flaen yn rhwydd i'w methu os nad ydych yn drylwyr.
  - Pothelloch: normal
  - Bronciol: calediad, ffibrosis, cwympiad
  - Unrhyw seiniau ychwanegol (e.e. clecian gwaelodol neu wich)?
- (opsiynol) Aseswch am gyseinedd lleisiol. Mwy clywadwy yn achos calediad, wedi'i ddistewi yn achos allrediad.

**6. Archwiliad y Frest Ôl**

Gofynnwch i'r claf eistedd ymlaen gyda'i freichiau/breichiau wedi'u croesi er mwyn tynnu'r pedyll ysgwyddau yn ôl. Ailadroddwch y drefn uchod ar wal y frest ôl, gan roi sylw penodol i ailasesu am greithiau.

## 7. Aseswch am Fethiant y Galon

- Gwirwch am oedema sacrol ac oedema'r droed a'r coesau is (pedal). Pa mor uchel y mae'n codi?
- Mae cleifion â chlefyd resbiradol difrifol mewn perygl uchel o gamweithrediad cardiofasgwlaidd.

## 8. Er Mwyn Cwblhau Archwiliad y System Resbiradol

Datganwch yr hoffech:

- Adolygu'r siart arsylwi (gall yr arholwr gyflwyno un i chi)
- Wneud cais am siart briglif, pelydr X y frest (CXR) neu tomograffeg gyfrifiadol (CT) (os yw'n addas), electrocardiogram (ECG), a'r gwaith gwaed addas, yn dibynnu ar y senario (e.e. Nwy Gwaed Prifwythiennol (ABG) er mwyn gwirio am fethiant resbiradol); nodwyr llidiol (cyfrif celloedd gwyn, cyfradd gwaddodiad erythrocyt (ESR), Protein C-Adweithiol (CRP)) os oes amheuaeth o heintiau megis llid yr ysgyfaint neu tiwberciwlosis.
- Wneud archwiliad cardiofasgwlaidd.
- Ystyried bronchoscopi a sampl boer, os yw'n addas.

## 9. Diolchhwch i'r claf.

## 10. Gorchuddiwch ef/hi yn addas. Gofynnwch a oes angen cymorth arno/arni i ail-wisgo.

## 11. Golchhwch eich dwylo.

## 12. Os gofynnir neu os mae amser yn caniatáu, crynhöwch eich darganfyddiadau i'r arholwr.

## 13. Gadewch yr ystafell neu'r cuddygyl gan gau'r drws neu'r llen y tu ôl i chi.

## BYDDWCH YN BAROD I ATEB CWESTIYNAU AM:

### Emboledd Ysgyfeiniol (EY)

- Beth yw prif nodweddion EY ar ECG?
- Pa opsiynau gwrth-geulad y byddech yn eu hystyried ar gyfer claf sydd wedi derbyn diagnosis o EY?
- Sut y byddech yn ymdopi â chlaf sydd wedi derbyn diagnosis o EY wedi-llawdriniaeth?
- Pa fesurau prophylactig y medrwch gymryd er mwyn lleihau risg cyn-llawdriniaeth?
- Pa fesurau cyn-llawdriniaeth y byddech yn eu hystyried mewn claf sydd yn cymryd moddion gwrth-geulad ar gyfer EY sydd wedi'i ddiagnosio'n flaenorol?

### Llid yr Ysgyfaint

- Beth yw ffactorau risg llid yr ysgyfaint wedi-llawdriniaeth?
- Beth yw arwyddion llid yr ysgyfaint?
- Pa ymchwiliadau y byddech yn eu cwblhau?
- Sut y byddech yn ei reoli?

### Rheolaeth Cyn-Llawdriniaeth o Glaf sydd â Chlefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD)

- Sut y byddech yn ei asesu?
- Pa ragofalon a allwch gymryd cyn y llawdriniaeth?
- Pwy arall y byddech yn cynnwys yn y rheolaeth?

- Oes angen adolygiad anesthetig ar y claf?

**Dehongliad Nwy Gwaed Prifwythiennol (ABG)**

- Beth yw'r achosion metabolig/asidosis resbiradol/alcalosis?
- Beth a olygir wrth fetabolig/asidosis resbiradol/alcalosis â chyfadferiad?
- Beth a olygir wrth fethiant resbiradol Math I a Math II?
- Beth yw achosion methiant resbiradol Math I a Math II?



# DOCTORS ACADEMY

BETTER EDUCATION. BETTER HEALTH.

Doctors Academy is a UK-based International Non-Profit Organisation comprising of doctors, dentists and scientists that undertakes a diverse range of educational activities globally. The aim of the Academy is to disseminate information and exchange medical knowledge between professionals from diverse backgrounds working in a variety of healthcare settings. This is achieved by the provision of a number of attendance courses, publishing house, online resources and international events / competitions.

## Courses (a selection):

### Undergraduate:


- Final Year Medicine and Surgical Revision Courses
- Training the Clinical Anatomy Trainer
- Clinical Anatomy as Applied to Trauma and Emergency Medicine
- Surgical Anatomy of Important Operative Procedures
- Future Surgeons: Key Skills (RCSEd delivered)
- Structured Introduction to Surgical Skills



### Postgraduate:

- MRCS Part A
- MRCEM Part A
- MRCS Part B OSCE
- DOHNS: Intensive Revision & OSCE
- Intercollegiate Basic Surgical Skills (RCSEd delivered)
- MRCP PACES Part 2
- FRCS (General Surgery) Exit Exam
- Cadaveric Ultrasound-Guided Musculoskeletal Intervention Course
- Ultrasound-Assisted Botulinum Toxin Injection for Neuromuscular Disorders
- Live Advanced Laparoscopic Colorectal Course

## Publications



[publications.doctorsacademy.org](http://publications.doctorsacademy.org)

## World Journal of Medical Education & Research



Peer-reviewed academic journal with ISSN.

- No fee to view, read and download articles
- No subscription charges
- No submission fees
- No manuscript processing fee
- No publishing fee
- No cost to read, write or publish!

[wjmer.co.uk](http://wjmer.co.uk)

## Online Revision Resources

DoctorExams consists of 1000s of questions with detailed explanations in MCQ, EMQ, SBA and SAQ formats. Questions are written by the Doctors Academy group of experienced clinicians and clinical academics, with mock exams and feedback on performance included to aid a candidate's focused revision of topics. Based on past exams, these questions are carefully crafted to suit the requirements of undergraduate students & postgraduate trainees undertaking relevant speciality exams.

### Resources for:

- |                                |                         |
|--------------------------------|-------------------------|
| - Medical Students             | - General Surgery Exams |
| - Dental Students              | - Plastic Surgery Exams |
| - International Entrance Exams | - DOHNS Exams           |
| - MRCS Exams                   |                         |

[www.doctorexams.co.uk](http://www.doctorexams.co.uk)

**[www.doctorsacademy.org](http://www.doctorsacademy.org)**